

Tribiwnlys Anghenion  
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational  
Needs Tribunal for Wales

# Gwahaniaethu ar sail Anabledd mewn Ysgolion Gweithredu ein gorchymyn:

## Canllaw i Rieni ar beth fydd yn digwydd nesaf

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.

### Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

## Beth y mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ei wneud

Mae ein gorchymyn yn rhwymo'r Corff Cyfrifol. Mae'n ddyletswydd ar y Corff Cyfrifol i wneud yr hyn rydym wedi'i orchymyn.

## Pryd y mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol gydymffurfio â'n gorchymyn

Fel arfer, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol weithredu ein gorchymyn o fewn cyfnod cyfyngedig o amser. Mae'r cyfnod yn cychwyn y diwrnod ar ôl i ni anfon y gorchymyn.

Mae'r cyfnod a ganiateir yn amrywio, yn dibynnu ar ba fath o orchymyn ydyw. Fel arfer bydd Cadeirydd y Tribiwnlys yn cynnwys y cyfyngiadau amser a bennwyd ar gyfer gweithredu'r gorchymyn yn y penderfyniad ysgrifenedig.

## Mae'n gwaith ni wedi gorffen

Ar ôl i ni gyhoeddi ein penderfyniad, dydyn ni ddim yn gallu cymryd unrhyw gamau pellach. Does gennym ni ddim pŵer i oruchwylio sut a phryd y mae'r gorchymyn yn cael ei weithredu. Hyd yn oed os nad ydy'r ALI yn gwneud yr hyn y mae wedi cael gorchymyn i'w wneud o fewn y cyfyngiad amser a bennwyd, dydyn ni ddim yn gallu cymryd unrhyw gamau pellach. Byddai'n rhaid i chi fynd ar drywydd hyn gyda Llywodraeth Cymru - gweler isod.

## Os nad ydy'r Corff Cyfrifol yn cydymffurfio

Os nad ydy'r Corff Cyfrifol yn gweithredu ein gorchymyn o fewn y cyfyngiad amser a bennwyd, ac os nad ydyn nhw'n gallu rhoi esboniad boddhaol pam, mae gennych chi hawl i gwyno i Lywodraeth Cymru. Dyma'r cyfeiriad:

### **Llywodraeth Cymru**

Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Yr adran Addysg a Sgiliau

Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Rhif: Ffôn: 02920 826078

Yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol sy'n gwrandao ar gwynion am gamweinyddu ar ran ALI.

### **Yr Ombwdsman Llywodraeth Leol**

Tŷ Derwen

Heol y Llys, Pen-y-bont ar Ogwr

CF31 1BN

Gobeithio bod y canllaw byr hwn yn ddefnyddiol. Mae'r rheoliadau llawn i'w gweld yn Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012. Os oes gennych chi fynediad i'r rhynggrwyd, mae'r rheoliadau rhain i'w gweld yn: [Legislation](#)